## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Ann Cook | Adran Etholiadol: | Y Cocyd |
|---|---|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Rwyf wedi mynd i gymorthfeydd misol yn y ward, a'u hysbysebu yn yn y wasg leol, hefyd ar wefan Ward y Cocyd a thrwy gyfryngau cymdeithasol. Rwyf hefyd yn cynnal cymorthfeydd stryd trwy fynd am dro a chwrdd a siarad â phreswylwyr.

Ymwelais â chanolfannau dydd a phafiliwn yr henoed yn Fforestfach, hefyd Tŷ Dewi Sant. Euthum i gyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) yn y ward, a gweithio'n agos gyda'r heddlu i fynd i'r afael â materion megis ymddygiad gwrthgymdeithasol etc.

Rwy'n llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Gendros ac Ysgol Dylan Thomas. Cadeirydd Fforwm Parc Cyfeillion Ravenhill yr helpais i'w drefnu.

Cadeirydd ar Bwyllgor Canolfan Gymunedol Gendros a helpais gyda digwyddiadau a gweithgareddau amrywiol.

Euthum i gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghanolfan Gymunedol Gendros a Ravenhill i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Yn ychwanegol at yr uchod, rwyf wedi ymdrin â nifer o ymholiadau ar draws y ward ynghylch traffig, tenantiaeth, dyraniad tai, tipio anghyfreithlon, baw cŵn, casgliadau ailgylchu, glanhau strydoedd, niwsans sŵn, parcio preswylwyr, goleuadau stryd, biniau graean, tyllau yn y ffordd, ymholiadau canclwm, crefftwaith adnewyddu eilradd, budd-daliadau, tocynnau parcio, Treth y Cyngor etc.

**Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

*Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.*

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau | 9 | / | 11 | 82 | % |
| Y Cyngor | 17 | / | 18 | 94 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | 15 | / | 16 | 94 | % |
| Panel Llywodraethwyr yr ALI | 7 | / | 9 | 78 | % |
| Pwyllgor Cynllunio | 16 | / | 19 | 84 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Atal a Diwygio Gofal Cymdeithasol | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 12 | / | 14 | 86 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Gwasanaethau | 4 | / | 4 | 100 | % |
| Pwyllgor Trwyddedu Statudol | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol | 2 | / | 2 | 100 | % |
| **CYFFREDINOL** | **91** | **/** | **103** | **88** | **%** |

| **Cyfarfodydd Craffu:** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Panel Ymchwilio Craffu Cynnwys y Cyhoedd | 0 | / | 1 | 0 | % |
| Panel Ymchwilio Craffu Strydlun | 0 | / | 1 | 0 | % |
| **CYFFREDINOL** | **0** | **/** | **2** | **0** | **%** |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Roeddwn yn aelod o Bwyllgor y Rhaglen Graffu a'r Panel Craffu a oedd yn trafod Adolygiad Craffu ar Ddarpariaeth Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr y broses chwilio am safleoedd.

Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ac aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Sefydlais Fforwm Cyfeillion Parc Ravenhill ac, ar hyn o bryd, fi yw Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli a helpais i drefnu digwyddiadau yn y parc.

Rwyf wedi ymgyrchu a bod yn llwyddiannus wrth helpu i ddod o hyd i lwybr mynediad i'r anabl i'r lle chwarae ym Mharc Ravenhill, a hefyd helpais i baentio'r cyfarpar.

Hefyd, helpais i ddarparu arian ar gyfer gerddi blodau gwyllt yno a hefyd ar Heol Bryn, Waunarlwydd.

Ynghyd â'm cydweithwyr ward, rwyf hefyd wedi helpu i ariannu arwyddion ffyrdd "Croeso’’ newydd.

**Adran 5:Dysgu a datblygu**

Rwyf wedi mynd i'r hyfforddiant canlynol:
18/04/2016 - Arweiniad ar yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chraffu ar Newidiadau i'r Gwasanaethau Cymunedol
13/04/2016 - A. 106 Cytundebau/Rhwymedigaethau Cynllunio
12/04/2016 - Gloywi Arweiniad Dylunio Preswyl
08/03/2016 - Deddf Cynllunio Cymru - Gweithdrefnau Rheoli Datblygu
25/02/2016 - Pwyllgor Cynllunio - Hawliau Tramwy
07/07/2015 - Pwyllgor Trwyddedu HMO a Masnachu ar y Stryd

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Fy mhrif ffocws, fel erioed, yw mynd i'r afael â materion a godwyd gan etholwyr a diwallu anghenion y gymuned leol.

Trwy gydol y flwyddyn, rwyf wedi cefnogi Ysgol Gynradd Waunarlwydd ar Ddiwrnod y Llyfr yn darllen straeon i'r plant a fwynheais yn fawr iawn.  Cefnogais gynifer o weithgareddau yn y ward ag y gallwn, digwyddiadau yn y Fferm Gymunedol, Carnifal Waunarlwydd, Cyfeillion Parc Ravenhill, Tŷ Dewi Sant, a digwyddiadau yn Llyfrgell Fforestfach.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**
Cyflog Sylfaenol: £13,300

## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

| |
|---|
| Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:<br>http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0<br>Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:<br>http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0 |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 14.04.2016 |